Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru
Co-production Network for Wales
Pawb gyda'i gilydd
All in this together

# Ymgynghoriad ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

1. Rydym yn cyflwyno ymateb i'r Ymgynghoriad ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ar ran tîm ac aelodau Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru.

2. Sefydliad annibynnol dielw yw Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru sy'n gweithio i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus trwy gydgynhyrchu a chynnwys dinasyddion yn y broses. Pan fydd dinasyddion a gweithwyr proffesiynol yn gweithio mewn partneriaeth, ceir gwell gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl yn well. Yn yr hinsawdd bresennol o adnoddau cyhoeddus sy'n lleihau a'r cynnydd mewn galw amdanynt, mae cydgynhyrchu a chyfraniad dinasyddion yn cynnig agwedd rymus o ran sicrhau newid positif a chynaliadwy i wasanaethau cyhoeddus a chymunedau. Diben y Rhwydwaith yw tyfu arfer dda ar draws sectorau ac ar draws Cymru gyfan; a chefnogi unigolion sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau er mwyn creu cyd-destun cadarnhaol ar gyfer y gwaith yma.

3. **Mae ein hymateb yn ymwneud yn benodol â Rhan 3 y bil arfaethedig: Hyrwyddo Mynediad at Lywodraeth Leol.**

4. Rydym yn canmol bwriad y Bil i newid fframwaith llywodraethu llywodraeth leol er mwyn galluogi gwell tryloywder, perchnogaeth leol ac arloesi, sydd yn ein barn ni'n hanfodol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol.

5. Mae'r Bil yn cynnig dechrau cadarn o ran cynyddu tryloywder, gyda gwybodaeth o ran sut mae'r cyngor yn gweithio, sut i fod yn gynghorydd, a beth sydd ar agenda'r cyngor (Pennod 2); canllawiau ar gyfansoddiad y cyngor mewn iaith gyffredin (Pennod 3); a darlledu cyfarfodydd cyhoeddus i'w gwneud yn fwy hygyrch (Pennod 4).

6. Mae'r Bil hefyd yn gwneud datganiad cadarnhaol ar gyfranogiad y cyhoedd o ran democratiaeth leol yn Adran 46, sy'n ategu bod yn rhaid i gynghorau **annog** [gyda phwyslais ar ein hunain] pobl leol i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.  Rydym yn croesawu hyn yn fawr.

7. Ni fydd arddangos prosesau mewnol cynghorau i'r sawl sydd â diddordeb yn hyn o beth, yn arwain at ymgysylltiad cyffredin. Gall achosi problemau i gymryd yn ganiataol fod dinasyddion yn barod ac yn aros i gymryd rhan trwy'r sianeli sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae gwleidyddion yn cwyno fod pobl yn apathetig ac am ddiffyg diddordeb, ac nid yw hyn yn syndod gyda'r prosesau cymhleth sy'n bodoli, gyda chyrff cyhoeddus yn penderfynu pryd i ymgynghori â phobl ar faterion trafod ar lefel docynistig, ac nid ydynt o'r farn fod eu safbwynt yn cael dylanwad arwyddocaol ar faterion sy'n berthnasol iddynt.

8. Tu hwnt i gyhoeddi gwybodaeth, mae angen i gynghorau geisio cynnwys pobl ac annog cyfranogiad go iawn. Byddai buddsoddi mewn technoleg fideo-gynadledda a darlledu, y cyfeirir ato'n Adran 53(1) er enghraifft, yn wastraff adnoddau, a pheidio gweithio tuag at wneud defnydd llawn ohono. Mae'r broses yn cychwyn gyda thryloywder effeithiol h.y. yr hyn sy'n cael ei lywio gan y defnyddwyr, yn hytrach na'r hyn y mae'r sefydliad yn ei bennu. (Trwy ddefnyddio agwedd gydgynhyrchiol, gall cynghorau ymgysylltu â phobl leol er mwyn dysgu'r hyn bydden nhw'n hoffi ei wybod, neu angen ei ddeall.) Fodd bynnag, wrth ei hunan ni fydd tryloywder yn ddigonol, oni bai bod systemau'n bodoli i wneud y rhyngweithio'n berthnasol, yn ddiddorol, yn hygyrch ac yn gyfforddus. Mae angen i gynghorau ddeall eu pobl, yn yr un modd ag y mae angen i bobl ddeall eu cynghorau. Cyfrifoldeb y cyngor yw cael hyd i'r sianeli a'r prosesau cywir er mwyn gallu annog pobl i fynegi eu barn, mewn ffordd weithgar a bwriadol, i'r broses o wneud penderfyniadau lleol.

9. Siom felly yw nodi fod y Bil yn methu cyflawni hyn yn Adran 47, lle mae'n olrhain sut i annog pobl i gymryd rhan, gan sôn am:
   (1) paratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd
   (2a) gwneud pobl yn fwy ymwybodol o'r ffordd mae'r cyngor yn gweithio
   (2b) gwneud pobl yn fwy ymwybodol o sut i ddod yn gynghorydd
   (2c) hysbysu pobl ynghylch pa benderfyniadau sydd ar agenda'r cyngor ar hyn o bryd
   (2d) llunio proses er mwyn i bobl cyflwyno dadl mewn perthynas â'r penderfyniadau sydd eisoes ar agenda'r cyngor

10. Mae'r ffocws ar egluro sut mae cynghorau'n gweithredu eisoes, gyda'r cyngor yn rheoli'r broses o osod yr agenda. Ni fydd y canlyniad yn sylweddol wahanol i'r hyn sy'n bodoli eisoes: system ffurfiol, sy'n hygyrch i'r lleiafrif ac sy'n anodd i unigolion lleyg ei lywio. Nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth i bobl godi materion sy'n bwysig iddyn nhw, neu ganiatáu cyfle i bobl ymgysylltu mewn ffyrdd arall, ar wahân i ddod yn gynghorydd, neu lofnodi deiseb. Ni fydd ychwanegu haen strategaethau'n cynyddu cyfranogiad oni fydd y strategaethau hyn yn cyfrannu at wella'r berthynas a'r rhyngweithio rhwng y cyngor a'i drigolion. Llais cadarn ar ran dinasyddion, a gefnogir gan agwedd gydgynhyrchu a chyfranogiad, fydd yn galluogi pobl i ymgysylltu â democratiaeth leol a'r broses o wneud penderfyniadau.

11. Mae Adran 48 yn nodi y dylid cyhoeddi strategaeth cyfranogiad gan y cyhoedd "mor fuan ag sy'n rhesymol ymarferol", ac mae'r pwysau hyn o ran amserlen yn peryglu agwedd gydgynhyrchu go iawn. Pe byddai'r Bil yma'n cefnogi cynghorau i gymryd yr amser sydd ei angen i ddelio gyda chyfranogiad yn iawn, byddai hynny'n effaith rymus ; yn hytrach na safbwynt tocynistaidd o fynd drwy'r broses i'w wneud yn gyflym, fydd yn methu arwain at greu effaith a newid. Mae Adran 48(2), (4) a (6) yn cyfeirio at ymgynghori â phobl leol i baratoi, adolygu a diwygio neu ddisodli'r strategaeth. Mae'n debygol y bydd dilyn y trywydd hwn yn arwain at ymatebion gan yr "unigolion arferol", a diffyg diddordeb cyffredinol, sy'n mynd yn groes i amcan cyhoeddedig y Bil, sef ymgysylltu pobl â phroses democratiaeth leol. Byddai'n synhwyrol cydgynhyrchu'r strategaeth a gweithio gyda phobl i siapio sut maent yn gallu cyfrannu, a sut byddan nhw yn cyfrannu.

12. Felly hefyd o ran y cynllun deisebau, yn Adran 49(3) a (4): nodwyd taw'r cyngor sy'n gyrru a'r cyngor yw ffocws y broses o adolygu a diwygio neu ddisodli'r strategaeth. Os ydych chi wir eisiau i bobl gymryd rhan ym mhroses democratiaeth leol, mae angen gofyn iddynt beth fyddai'n eu galluogi i wrando ar, deall a siapio'r prosesau gyda'i gilydd - er mwyn bod yn effeithiol ac yn effeithlon o safbwynt adnoddau.

13. Mae'r Bil yn gosod nodau ysbrydoledig, ond mae'n cilio o safbwynt galluogi eu bodloni. Cyfyngir y dyhead ar gyfer mwy o arloesi i ddefnyddio fideo-gynadledda a chyfryngau cymdeithasol. Mae angen i gynghorau allu gwahodd mwy o bobl (a phobl fwy amrywiol) i gymryd rhan mewn sgwrs adeiladol, i ddatrys problemau, a gwneud penderfyniadau ar y cyd fydd yn cyfrannu at gynaliadwyedd ein gwasanaethau a chydnerthedd ein cymunedau. Dyna wir fanteision pobl sy'n chwarae rhan weithgar mewn democratiaeth leol. Ni fydd yn bosib eu cyrraedd heb arloesi, ond nid yw arloesi'n digwydd wrth ei hunan; mae angen creu'r amgylchiadau iawn.

14. Diolch ichi am ystyried ein hymateb i'r ymgynghoriad. Rydym ar gael i gefnogi arloesi a gwella trwy gydgynhyrchu a chyfraniad dinasyddion yng nghyd-destun democratiaeth leol, a byddwn yn hapus i drafod yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad gyda swyddogion, pwyllgorau neu Weinidogion pe dymunir.

*Noreen Blanluet*
*Cyfarwyddwr, Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru*
[redacted]

*Ionawr 2019*